**Y PWYLLGOR DIWYLLIANT CC-16-02(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 23 Hydref 2002 |
| **Amser:** | 9.00am - 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| | **Aelodau** | Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)<br><br>Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)<br><br>Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)<br><br>Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)<br><br>Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)<br><br>Alison Halford (Llafur, Delyn)<br><br>Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)<br><br>Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)<br><br>Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru) |
| | | |
| | | |
| | **Swyddogion** | Margaret Evans (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon) |
| | | Arthur Emyr (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon) |
| | | Russell Thomas (Yr Is-adran Diwylliant a'r Gymraeg) |
| | | |
| | | |
| | **Ysgrifenyddiaeth** | Marie Knox (Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil yr Aelodau a'r Pwyllgorau) |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

**9.00am hyd 9.10am**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd.

   1.2 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ddatgan buddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5.

Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Rhodri Glyn Thomas - aelod o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008
- Mae Dafydd Wigley yn derbyn cyllid gan y Cyngor Llyfrau ac mae ei wraig yn ymwneud â'r Celfyddydau yng Nghymru.
- Mae Rosemary Butler yn Gadeirydd ar fwrdd cysgodol Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe.

**9.10am hyd 10.30am**

**Eitem 2: Adolygiad Polisi ar Chwaraeon**

**Papurau CC-16-02(p.1, p.1a, p.1b)**

2.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y papur a gofynnodd am sylwadau'r Aelodau ar gylch gorchwyl drafft yr adolygiad o gyfranogiad mewn chwaraeon a blaenraglen waith amlinellol yr adolygiad.

2.2 Cytunodd aelodau'r Pwyllgor y dylai'r adolygiad ganolbwyntio ar lefelau cymryd rhan mewn chwaraeon. Cytunwyd na fyddai'n bosibl gwahodd cynrychiolwyr chwaraeon unigol i roi cyflwyniadau llafar o gofio fod cymaint o gyrff o'r fath ar gael, a hyd yr adolygiad. Byddai cyrff yn cael eu hannog i gyflwyno eu sylwadau yn ysgrifenedig, fodd bynnag. Mynegodd nifer o aelodau'r pwyllgor eu syndod a'u siom na chafodd ymgynghoriad ysgrifenedig ei gynnal dros y toriad fel a gynigiwyd yn y cyfarfod diwethaf ym mis Gorffennaf. Ymddiheurodd y Cadeirydd am hynny a dywedodd y byddai'r ymgynghoriad yn dechrau yn fuan. Roedd yr aelodau’n pryderu, fodd bynnag, na fyddai hynny'n rhoi digon o amser iddynt ystyried y themâu a fyddai'n dod i'r amlwg yn y cyflwyniadau ysgrifenedig wrth holi cwestiynau yn ystod y cyflwyniadau llafar. Cytunwyd y byddai rhestr ymgynghori yn cael ei hanfon at aelodau'r pwyllgor er mwyn iddynt hwy awgrymu unrhyw gyrff ychwanegol.

2.3 O ran y flaenraglen waith, gofynnodd yr aelodau a fyddai digon a amser ar gael i dderbyn cyflwyniadau ar yr holl bynciau a awgrymwyd ar gyfer cyfarfod 20 Tachwedd. Cytunodd y pwyllgor i ystyried materion yn ymwneud ag uwch-gynghrair pêl droed Cymru mewn cyfarfod diweddarach, a hynny ar wahân i'r adolygiad ar gyfranogiad mewn chwaraeon. Fe wnaeth y Gweinidog atgoffa'r pwyllgor bod y Fforwm Pêl Droed wedi cynhyrchu adroddiad yn ddiweddar ac y byddai hi'n cyhoeddi ei hymateb i'r adroddiad yn ddiweddarach yn yr hydref. Cytunwyd y dylid ystyried pêl droed yng Nghymru ar ôl i'r Gweinidog gyhoeddi ei hymateb.

2.4 Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am awgrymiadau ei swyddogion yn Atodiad B i'r papur a dywedodd fod y Gweinidog wedi addo rhoi gwybodaeth bellach i aelodau'r pwyllgor yn ôl y gofyn. Awgrymwyd y dylid gofyn i Gyngor Chwaraeon Cymru roi manylion y cyrff hynny y mae'n rhoi cymorth ariannol iddynt. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau anfon unrhyw sylwadau ychwanegol ar y cylch gorchwyl, y flaenraglen waith neu'r rhestr ymgynghori at yr

ysgrifenyddiaeth.

**Camau Gweithredu:**

- Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu'r ymgynghoriad ac anfon y rhestr ddosbarthu at yr aelodau.
- Yr Aelodau i anfon unrhyw sylwadau ychwanegol ar y cylch gorchwyl a'r rhaglen at yr Ysgrifenyddiaeth.
- Yr Ysgrifenyddiaeth i gael y wybodaeth ynghylch cyllid gan y Cyngor Chwaraeon.
- Dylid ystyried y Fforwm Pêl Droed mewn cyfarfod yn y dyfodol, ar wahân i'r adolygiad ar gyfranogiad.

*Cyflwyniad y Comisiwn Archwilio*

2.5 Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Huw Rees a Molly Lewis o'r Comisiwn Archwilio gyflwyno adroddiad y Comisiwn ar chwaraeon a hamdden.

2.6 Amgaeir copi o'r cyflwyniad yn Atodiad A. Y prif bwyntiau a godwyd yn ystod y cyflwyniad oedd:

- Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar nifer fechan o arolygiadau o awdurdodau lleol yng Nghymru.
- Ar sail y sampl fechan, roedd Cymru'n cymharu'n ffafriol â Lloegr.
- Roedd angen diffinio swyddogaeth glir ar gyfer awdurdodau lleol o ran darparu cyfleusterau chwaraeon.
- Roedd angen datblygu dulliau o sicrhau bod ystod ehangach o bob grwp yn y gymuned yn gallu defnyddio cyfleusterau chwaraeon.
- Roedd o fantais defnyddio dull cydlynol o weithio wrth ddarparu adnoddau chwaraeon a hamdden; a
- Dylid annog awdurdodau lleol i edrych ar ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau.

2.7 Mewn ymateb i gwestiynau aelodau'r pwyllgor, eglurodd y Comisiwn Archwilio y pwyntiau canlynol:

- Eu swyddogaeth hwy oedd ystyried a oedd awdurdodau lleol yn mynd ati mewn modd derbyniol i ystyried systemau eraill o ddarparu gwasanaethau. Pan gwblhaodd y Comisiwn Archwilio ei adolygiad o Sir y Fflint, roedd yn fodlon bod dull y sir o fynd ati i ystyried y Fenter Cyllid Preifat yn dderbyniol.
- Er nad oedd cyllidebau awdurdodau lleol yn lleihau yn gyffredinol, pan fo'n rhaid i awdurdodau flaenoriaethu eu hadnoddau gallent fod yn dargyfeirio adnoddau o chwaraeon a hamdden i wasanaethau eraill.
- O ran ymestyn mynediad, roedd y Comisiwn Archwilio yn edrych ar systemau gwybodaeth a rhwydweithiau awdurdodau ac, yn ystod arolygiadau, roedd yn ystyried a oeddent yn ddigon da i alluogi'r awdurdod i fod yn gynhwysol.
- Cynhaliwyd mwyafrif yr arolygiadau a oedd yn sail i'r adroddiad hwn mewn ardaloedd trefol. Mae'n bosibl y ceid canfyddiadau gwahanol mewn ardaloedd gwledig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiwn Archwilio am eu cyflwyniad.

*Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru*

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Chris Llewelyn a David Evans wneud eu cyflwyniadau.

2.8 Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Swyddogaethau anstatudol yw chwaraeon a hamdden i awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol yn darparu'r gwasanaethau hyn, fodd bynnag, gan eu bod yn bwysig i'r gymuned leol.
- Mae awdurdodau lleol yn darparu nifer fawr o gyfleusterau chwaraeon amrywiol yng Nghymru. Adeiladwyd nifer o'r cyfleusterau yn y 1970au ac mae angen eu hadnewyddu erbyn hyn. Roedd yn rhaid i awdurdodau lleol hefyd ystyried effaith Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ar eu cyfleusterau.
- Roedd nifer o awdurdodau lleol yn cynnig gostyngiadau ar gyfer rhai cyfleusterau. Gallai hyd yn oed gost ostyngol fod yn rhwystr, fodd bynnag. Croesawyd cyhoeddiad y Gweinidog Cyllid ynghylch creu gweithgor i edrych ar gynnig cyfleusterau hamdden a chwaraeon am ddim i blant yn ystod gwyliau'r ysgol.

- Roedd poblogaeth wasgaredig yn creu problemau i awdurdodau lleol mewn ardaloedd gwledig. Awgrymwyd y byddai cludiant rhad yn fanteisiol i ddefnyddwyr.
- Roedd angen cynyddu ymwybyddiaeth o'r cyfleusterau sydd ar gael ymysg y rheiny nad oedd yn eu defnyddio.
- Teimlwyd y dylai Cyngor Chwaraeon Cymru roi cyhoeddusrwydd ehangach i'w rôl.
- Mynegwyd pryder y ceir gorddibyniaeth ar arian y loteri ar gyfer prosiectau chwaraeon a hamdden.
- Yr un oedd cost hyfforddi'r athletwyr gorau yng Nghymru fesul unigolyn ag yn Lloegr. Roedd cyllid y loteri ar gyfer Cymru, fodd bynnag, yn cael ei bennu ar sail arian y pen. Roedd hynny'n golygu bod Cymru o dan anfantais o'i chymharu â Lloegr o ran y cyllid a ddarperir.
- Roedd dadleuon cryf o blaid buddsoddi mewn chwaraeon er mwyn lleihau lefelau troseddu ymysg pobl ifanc, ond roedd angen gwell ymchwil a thystiolaeth i ategu'r dadleuon hyn.
- Roedd y ddarpariaeth chwaraeon yng Nghymru yn ddibynnol iawn ar wirfoddolwyr ond roedd yn dod yn anoddach eu recriwtio a'u cadw erbyn hyn oherwydd y cyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gwaith.
- Teimlwyd bod y dull partneriaeth tair ffordd wedi gweithio'n dda yn achos Gemau'r Gymanwlad.

2.9 Mewn ymateb i gwestiynau aelodau'r pwyllgor gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Cynllun Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yw'r cynllun corfforaethol ac nid cynllun yr awdurdodau lleol. Gan mai corff bychan yw'r Gymdeithas, ni all ymdrin â phob sector gwasanaeth; dyna pam nad oedd y cynllun corfforaethol yn cyfeirio at chwaraeon a hamdden.
- Awgrymwyd bod gan y Comisiwn Archwilio agwedd ddogmataidd at ddulliau eraill o ddarparu gwasanaethau. Ceir rhai cyfleoedd i ddefnyddio'r sector preifat a chyda diwedd tendro cystadleuol gorfodol nid oedd awdurdodau lleol yn trin y sector preifat fel cystadleuwyr bellach ond, yn hytrach, fel partneriaid posibl. O ran datblygu chwaraeon, fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddewisiadau eraill ar gael heblaw darpariaeth y sector cyhoeddus.
- Ystyriwyd bod gan Awstralia gynllun recriwtio gwirfoddolwyr llwyddiannus. Roedd Cyngor Chwaraeon Cymru yn edrych ar y trefniadau ar gyfer gwirfoddoli yn Awstralia a Seland Newydd.
- Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar chwaraeon a'r loteri gan ddadlau'r achos dros roi mwy o gyllid i Gymru.
- Ystyriwyd bod rhai digwyddiadau chwaraeon yn sbarduno twf economaidd.
- Nid oedd y Gymdeithas yn teimlo y byddai rhoi cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn gwella safon y gwasanaethau a ddarperid. Yn hytrach, dadleuwyd y byddai'n fwy effeithiol ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaeth ddiwylliannol.

Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl o 15 munud.

**<u>10.45am hyd 11.30am</u>**

**Eitem 3: Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru: Ymgynghoriad ar Arddangos Celfyddyd**

**CC-16-02(p.2)**

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Michael Tooby a Paul Loveluck gyflwyno papur CG-16-02(p2).

3.1 Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y cyflwyniad:

- Roedd yr adroddiad ar y broses ymgynghori helaeth ar arddangos celfyddyd yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd ac yn amlinellu'r prif themâu. Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd yn cefnogi sefydlu oriel genedlaethol ar wahân yn y brifddinas. Roedd peth cefnogaeth hefyd i sefydlu oriel ar wahân y tu allan i Gaerdydd. Nid oedd y rhai a ymatebodd yn ystyried ei bod yn fater o ddewis y naill neu'r llall.
- Amlygodd yr ymgynghoriad awydd cryf i weld mwy o fuddsoddiad wedi'i dargedu mewn arddangos celfyddyd, a hynny dros y tymor hir.

- Ar hyn o bryd, nid oes gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru farn ynghylch sefydlu oriel genedlaethol newydd, ei lleoliad na'i chyfansoddiad. Roedd eisoes wedi ymrwymo i gymryd nifer o gamau dros y tymor byr a'r tymor canolig. Mater ar gyfer y tymor hir oedd sefydlu oriel newydd a byddai'n rhaid cynnal ymgynghoriad pellach ar hynny.

3.2 Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y sesiwn holi ac ateb:

- Mynegwyd peth pryder ynghylch y broses ymgynghori a'r ffaith y gallai fod wedi ffafrio Caerdydd.
- Roedd nifer o'r aelodau'n cytuno, fodd bynnag, mai Caerdydd, fel prifddinas Cymru, oedd y lleoliad gorau ar gyfer oriel genedlaethol o waith celf cyfoes. Roedd yr aelodau'n awyddus hefyd i sicrhau bod sylw'n cael ei roi i arddangos celfyddyd mewn lleoliadau eraill. Roedd yr aelodau o'r farn bod angen ymestyn y cysyniad o rannu "Cyfoeth Cymru Gyfan".
- Eglurodd y Gweinidog nad oedd unrhyw ddarpariaeth yn y gyllideb ar hyn o bryd ar gyfer cynllun uchelgeisiol i sefydlu oriel genedlaethol ar wahân, nac i ymestyn yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd.
- Cadarnhaodd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru fod lleoliadau rhanbarthol ar gael ond nad oedd y seilwaith yn ddigon da iddynt allu arddangos casgliadau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Roedd angen gweithio ar y cyd er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn.
- Mynegwyd pryder y gallai tensiwn godi rhwng swyddogaeth guradurol Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a'u swyddogaeth o arddangos.

**<u>11.30am hyd 11.55am</u>**

**Eitem 4: Y Gyllideb: Cynigion Terfynol**

**Papur CC 16-02 (p.3)**

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei phapur gan ddweud mai cyllideb ddrafft oedd hon o hyd ac y gellid ei newid ar unrhyw bryd cyn y ddadl ar y gyllideb derfynol yn y cyfarfod llawn ar 6 Tachwedd. Roedd y papur yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Gweinidog, sylwadau'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a blaenoriaethau'r Pwyllgor. Tynnodd sylw at y pwyntiau canlynol:

- y cynnydd o 16.5% yn y gyllideb ddiwylliant ar gyfer y flwyddyn nesaf gyda chynnydd mwy yn y blynyddoedd dilynol (£46.8m yn 2003-04 a £62.3m yn 2005-06). Nid oedd yn cynnwys Cyngor Llyfrau Cymru gan y byddai ei strwythur cyllido yn cael ei symleiddio.
- roedd costau rhedeg y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad wedi eu nodi ar wahân i gyllideb "Cymru Greadigol".
- blaenoriaethau'r Gweinidog oedd:

    - y Gymraeg - a fydd yn derbyn £16m yn ychwanegol o'r Gronfa Ddiwylliant dros dair blynedd. Croesawodd yr Aelodau'r dyraniad sylweddol hwn a gofynnwyd am adroddiad manylach ynghylch sut y byddai'n cael ei ddyrannu.

    - chwaraeon ac

    - y celfyddydau.

- ei chyhoeddiad diweddar ynghylch yr "Ymateb i'r Adnodd" a chreu uned ymgynghorol newydd o fewn y Cynulliad, y tu allan i Gaerdydd gyda hyd at 25 o staff, i ddarparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr i amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifdai lleol o 1 Ebrill 2004 ymlaen. Bydd yr uned newydd yn derbyn £2m y

flwyddyn (o'i gymharu â £750,000 ar hyn o bryd) o 2004-05 ymlaen. Ni fyddai'n Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Croesawodd yr aelodau'r cyhoeddiad hwn a gofynnodd y pwyllgor am adroddiad manylach.

- ariennir nifer o'r prosiectau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyllideb o'r Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn newydd neu gyfredol. Yn eu plith mae costau cyfalaf adeiladu Canolfan Mileniwm Cymru a grant Amgueddfa'r Glannau, Abertawe. Roedd trefniadau interim yn eu lle ar gyfer yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a byddai manylion y cyllid a fyddai'n angenrheidiol ar gyfer cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008 yn dod yn glir ymhen ychydig wythnosau, yn ogystal â'r cynlluniau ar gyfer adnewyddu Athrofa Chwaraeon Cymru. Byddai'r cyllid ar gyfer Cwpan Ryder yn cael ei sianelu drwy Awdurdod Datblygu Cymru. Dywedodd y Gweinidog Cyllid y byddai'n ailedrych ar y materion hyn, yng ngoleuni unrhyw ddatblygiadau, yn y gyllideb derfynol neu'r gyllideb atodol y gwanwyn nesaf.

4.2 Croesawodd y Cadeirydd y cynnydd cyffredinol a chanmolodd y Gweinidog am gymryd sylw o sylwadau'r Pwyllgor. Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y sesiwn holi ac ateb:

- Roedd yr aelodau hefyd yn croesawu'r Strategaeth Ddigwyddiadau ar gyfer Cymru; y gefnogaeth a roddwyd i broffesiwn y celfyddydau perfformio ac awgrymwyd y dylid cefnogi cerddoriaeth draddodiadol; prosiectau coffáu/ dathlu cymunedol (e.e. darparu placiau ar gyfer cymunedau); a'r cymhorthdal i ysgolion sy'n ymweld ag atyniadau diwylliannol yng Nghymru sydd mewn dwylo preifat, megis Amgueddfa Dreftadaeth y Rhondda. Eglurodd y Cadeirydd mae argymhellion i'r Gweinidog yn unig oedd y rhain ac nad oedd y ffaith eu bod wedi'u cynnwys yn y papur ar y gyllideb yn golygu eu bod yn mynd i gael eu cefnogi, o anghenraid.
- fe wnaeth y pwyllgor holi sut y byddai'r Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn yn cael ei ddefnyddio a gofynnodd am wybodaeth glir ynghylch cyfanswm y gyllideb/gwariant.
- fe wnaeth y pwyllgor holi am sefyllfa ariannol yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a gofynnodd am adroddiad.
- cadarnhaodd y Cadeirydd bod y Cynulliad wedi cyfrannu £500,000 at gais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008. Ychwanegodd y Gweinidog y gallai'r Cynulliad gyfrannu hyd at £1.1m yn ychwanegol i gefnogi'r broses pe bai'r cais yn cael ei gynnwys ar y rhestr fer.
- addawodd y Gweinidog y byddai'n darparu gwybodaeth ynghylch ariannu Amgueddfa'r Glannau, Abertawe.
- eglurodd y Gweinidog fod Canolfan Mileniwm Cymru yn derbyn cyllid o £2m y flwyddyn o gostau rhedeg a £2m yn ychwanegol ledled Cymru. Roedd y diffyg o'r sector preifat yn y gyllideb gyfalaf yn £9.6m.
- croesawodd y Pwyllgor lwyddiant yr Wyl Theatr Gerddorol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

**11.55am hyd 12.25pm**

**Eitem 5: Adroddiad y Gweinidog**

**CC-16-02(p.4)**

5.1Mynegwyd pryder ynghylch mater Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol/Cyngor Chwaraeon Cymru. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog na allai wneud sylw ar y mater gan fod tribiwnlys cyflogaeth ar y gweill ond y byddai'n ysgrifennu ar y mater yn y man.

5.2 Croesawodd yr aelodau lansio gwefan "Casglu'r Tlysau".

5.3 Mynegwyd pryderon ynghylch cost penodi KMPG i adolygu rheolaeth yr Ardd Fotaneg Genedlaethol.

5.4 Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y diffyg trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer ymwelwyr â Chanolfan Mileniwm Cymru.

5.5 Mewn ymateb i'r cwestiwn a ofynnwyd i'r Gweinidog am y llong ganoloesol a ddatgelwyd yng Nghasnewydd yn

ddiweddar, y Gweinidog Cyllid a ddyrannodd yr arian ychwanegol ac nid oedd wedi dod o'r gyllideb ddiwylliant.

**12.25pm hyd 12.30pm**

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**

**CC-15-02(min)**

1. Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Hydref 2002**